## ❖ Carol Nadolig

Ti, Dduw yr holl genhedloedd,
Sy'n edrych arnom 'nawr
Yn nüwch yr erchylltra
Sy'n bygwth daear lawr;
Rho ymwybyddiaeth newydd
I bawb, o bob rhyw dras,
Mai cariad at ein cyd-ddyn
Yw gwir ffynhonnell gras.

Ti, Dduw yr holl genhedloedd,
Sy'n ein gwylio ni a'n poen,
Ar adeg geni'n Ceidwad,
Rho eto i ni hoen,
Ac ymwybyddiaeth newydd
Mai ti sydd wrth y llyw,
A rhaid i ninnau blygu
I'r gwir a'r bywiol Dduw.

Ti, Dduw yr holl genhedloedd,
Gwna ni yng Nghymru'n UN,
Boed i ni weld yn gwawrio
Y 'Gymru ar dy lun';
Ar ddiwrnod geni'r Ceidwad,
A ddaeth yn faban gwiw,
Boed atsain cân a moliant
Yn beraidd yn ein clyw.

Ti, Dduw yr holl wareiddiad,
A'th rodd o ryddid pur,
Maddeua ein camddefnydd,
A'n hanufudd-dod sur;
Ar ddiwrnod geni'r Ceidwad,
Rho i ni newydd wedd,
A chalon lân agored
I dderbyn balm dy hedd.

**Nia Rhosier**